**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig**
**Campaign for the Protection of Rural Wales**

**Cofnodion pumed cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Gwledig**
**1 Hydref 2013**
**Cynhaliwyd y cyfarfod yn ystafell seminar 1, y Pierhead.**

**'Datblygu Cynaliadwy, a chymunedau gwledig sy'n gadarn yn gynaliadwy'**

**Yn bresennol:**

**Cadeirydd:** **Llŷr Huws Gruffydd** – Plaid Cymru (PC)

**Yr Ysgrifenyddiaeth:** **Cat Griffith-Williams – Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig** (YDCW)

**Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth:** Llŷr Huws Gruffydd AC (PC), Jeff Cuthbert AC (Llafur), Antoinette Sandbach AC (Ceidwadwyr), Russell George AC (Ceidwadwyr), Osian Lewis, Staff Cymorth (PC), Emyr Williams, Staff Cymorth (PC), Laura Cranmer, Staff Cymorth (Ceidwadwyr)

**Hefyd yn bresennol:** Peter Ogden – YDCW, Cat Griffith-Williams – YDCW, Rhys Jones – Y Post Brenhinol, Stuart Taylor – Swyddfa'r Post, Natalie Rees – Cynnal Cymru, Irene Evison – Cyngor y Parciau Cenedlaethol, Alex Phillips – Llywodraeth Cymru, Karen Anthony – Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, Terry Marsden – Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy, Caerdydd, John Cook – Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Edward Holdaway – Partneriaeth Tirweddau Cymru, Lowri Gwilym – CLlLC, Beverley Penney – Y Gymdeithas Mannau Agored, Jay Kynch – Y Gymdeithas Mannau Agored, Ruth Williams – Y Sefydliad Tirwedd, Emily Keenon – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru, Jon Cryer – RSPB.

1. **Cychwynnodd y cyfarfod am 19.00, awr yn hwyrach na'r amser cychwyn a bennwyd, sef 18.00**

**Roedd y Cyfarfod Llawn yn hwyr yn gorffen am fod Aelodau'r Cynulliad yn trafod Bil Teithio Llesol (Cymru). Bu'n rhaid i'r Aelodau bleidleisio ar nifer fawr o welliannau.**

1.1 Estynnodd Peter Ogden – YDCW, groeso cynnes i bawb, a diolchodd i'r rhai a oedd yn bresennol am aros. Nid oedd Aelodau'r Cynulliad wedi cyrraedd, ond teimlwyd y dylai'r cyfarfod ddechrau yn y gobaith y byddent yn medru bod yn bresennol cyn bo hir. Aeth Peter rhagddo i gyflwyno Richard Tyler o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

2. **Cyflwyniad am y Prosiect Cynghreiriau Gwledig gan Richard Tyler o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**.

2.1 Soniodd Richard am gefndir y prosiect. Yn ei hanfod, mae'n ymwneud â gweithredu cynaliadwyedd yn lleol, yn enwedig drwy gyfrwng twristiaeth. Mae gan y prosiect 12 partner a ariannwyd gan yr UE. Maent wedi rhoi hwb i fusnesau a'r gymuned gysylltu â'i gilydd, er mwyn gwneud ardaloedd gwledig yn fwy bywiog. Soniodd am rai o'r is-brosiectau, sy'n cynnwys mynegai bywiogrwydd gwledig, peirianneg ariannol ac effeithlonrwydd adnoddau. Rhoddodd Richard enghreifftiau o lwyddiant y prosiect yn y gymuned, yn enwedig ardal lle'r oedd tafarn leol ar fin cau. Drwy'r Cynghrair Gwledig mae'r dafarn honno bellach yn cael ei rhedeg yn fasnachol.

2.2 Mae twristiaeth gynaliadwy ym Mannau Brycheiniog yn hanfodol i ddatblygiadau gwledig cynaliadwy, ac mae'r arian sy'n cael ei wario ar dwristiaeth yn cael ei wario'n eang yn y gymuned leol. Amlinellodd Richard ei gred fod gwerthoedd twristiaeth yn helpu i ddiogelu'r amgylchedd, a soniodd am y Bartneriaeth Cyrchfannau Cynaliadwy, a Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog.

2.3 Esboniodd Richard rai o lwyddiannau'r prosiect o Collabor8 (2008-2012), a oedd yn seiliedig ar gynaliadwyedd, naws am le ac ansawdd, i'r prosiect Cynghreiriau Gwledig (2012-2015), lle maent wedi cael llwyddiant gyda bwyd lleol, y fenter awyr dywyll, a strategaeth dwristiaeth a marchnata ar gyfer Bannau Brycheiniog.

**3. Am 19.20, cyrhaeddodd Llŷr Huws Gruffydd, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Gwledig, ac Aelod Cynulliad Rhanbarthol Plaid Cymru dros Ogledd Cymru, y cyfarfod, ynghyd â'r Aelodau Cynulliad eraill.**

3.1 Ymddiheurodd Llŷr ei fod ef a'i gyd-Aelodau yn hwyr yn cyrraedd, diolchodd i Richard Tyler am ei gyflwyniad a chyflwynodd y Gweinidog.

**4. Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am Ddatblygu Cynaliadwy.**

4.1 Soniodd y Gweinidog sut y mae'n bwriadu sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor ganolog i bob polisi a deddfwriaeth, a rhoddodd ei farn am drechu tlodi mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd hefyd pe byddai unrhyw gwestiynau na allai eu hateb y byddai ei swyddfa yn sicrhau bod ateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

4.2 Dywedodd y Gweinidog ei fod yn bwriadu gwneud datganiad ysgrifenedig am ei gynlluniau i lunio'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, fel bod gennym wlad y gallwn ymfalchïo ynddi i'w throsglwyddo i'n plant a'n hwyrion. Esboniodd y byddai gofynion ar bob corff cyhoeddus, ac ar bob cyngor tref a chymuned, yn amodol ar feini prawf penodol nad oedd yn gwbl orffenedig hyd yma. Eglurodd y Gweinidog y byddai'r Bil yn golygu y byddai'n RHAID i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i brif golofnau datblygu cynaliadwy.

- 4.2.1 Yr economi – Swyddi Hyfedrus Cynaliadwy
- 4.2.2 Y gymuned – Sut y bydd penderfyniadau yn effeithio ar y gymuned. Er enghraifft, gwerthu ardaloedd hamdden ac ystyried beth y mae hynny'n ei olygu i'r gymuned.
- 4.2.3 Yr amgylchedd – Llwybrau bysiau ac allyriadau

4.3 Esboniodd y Gweinidog nad swyddogaeth y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yw pennu sut mae gwneud hyn, ond bod cyfrifoldeb ar adrannau'r Llywodraeth i gydweithio i wireddu'r nodau.

4.4 Rhoddodd y Gweinidog grynodeb o'i fwriadau ar gyfer y dyfodol, sef penodi Comisiynydd Datblygu Cynaliadwy statudol ac adrodd yn ôl ar ddechrau pob tymor newydd o'r Cynulliad i ddweud sut y mae Cymru wedi cyflawni o ran cwrdd â'i thargedau. Bydd staff a chostau gweinyddol i gefnogi'r swydd, ynghyd â phwyllgor ymgynghori. Bydd yr aelodaeth graidd wedi'i phennu yn y gyfraith, ynghyd â'r gallu i gyfethol sefydliadau eraill i fynegi barn a bod â llais.

4.5 Caiff y Bil ei gyflwyno yn ystod tymor yr haf y flwyddyn nesaf. Yr oedd y Gweinidog yn gobeithio y bydd yn cryfhau datblygu cynaliadwy ym mywyd cyhoeddus yn fwy cyffredinol.

## 5. Sesiwn Holi ac Ateb. Cwestiynau i'r Gweinidog, ac atebion

5.1 **C** – Gofynnodd **Antoinette Sandbach AC (Ceidwadwyr)** i'r Gweinidog, 'Sut fydd y Comisiynydd yn datrys anghydfodau, sut yr ymdrinnir â'r rhwymedigaethau ar y sector cyhoeddus, a beth yw'r materion sy'n gorgyffwrdd â chynllunio?' **A** – Atebodd **Jeff Cuthbert** drwy ddweud y bydd cyrff cyhoeddus yn cael canllawiau cynhwysfawr, gyda meini prawf craidd ac opsiynau sy'n berthnasol i'w cylch gwaith e.e. y sector iechyd. Ni fyddai pob corff yn ymwneud â'r tair colofn sy'n sail i'r Bil, ac ni fyddai'r Bil, ynddo'i hun, o reidrwydd yn cyflwyno mathau newydd o feddwl a gweithredu oherwydd bydd llawer o'r materion yn ymwneud â phethau y mae awdurdodau lleol eisoes yn gorfod eu datrys, fel caffael yn effeithiol. Pan fyddai'r Bil ar waith, yr oedd yn rhagweld y byddai angen adolygu'r dystiolaeth yn rheolaidd er mwyn dod i ddeall pa mor dda yr oedd pethau'n gweithio, a dysgu o'r gwersi. O ran y berthynas rhwng darpariaethau'r Bil ac ystyriaethau cynllunio, esboniodd y Gweinidog ei fod yn dal yn y broses o ystyried pethau, a'i fod yn trafod nifer o Filiau cysylltiedig gyda Gweinidogion perthnasol eraill rhag ofn bod unrhyw wrthdaro rhyngddynt.

5.2 **C** – Canmolodd **Terry Marsden – Athrofa Ymchwil Lleoedd Cynaliadwy, Caerdydd**, yr enghreifftiau rhagorol o hyrwyddo a datblygu cynlluniau datblygu cynaliadwy yn y gymuned, gan gyfeirio'n benodol at yr enghreifftiau o'r Prosiect Cynghreiriau Gwledig y soniodd Richard Tyler o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog amdanynt. Yr oedd yn credu bod angen i'r Bil hybu'r prosiectau cymunedol hyn, a'r dull hwn o weithredu. **A** – Dywedodd **Jeff Cuthbert** na allai weld y byddai'r Bil yn llesteirio'r prosiectau hyn, ac roedd yn disgwyl y byddai arferion da yn cael eu rhaeadru ac y byddai grwpiau lleol yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cymunedau eu hunain.

5.3 **C** – Tynnodd **Peter Ogden – Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig YDCW**, sylw at y gwir broblemau tlodi mewn ardaloedd gwledig. Nid oedd yn credu eu bod yn wahanol i ardaloedd trefol, ond bod iddynt ddynameg wahanol. **A** – Esboniodd **Jeff Cuthbert** fod y Cynllun Datblygu Gwledig yn anelu at fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig. Cydnabu fod cludiant yn fater pwysig i'r cymunedau hyn. Esboniodd fod ganddo gyfrifoldeb dros Gymru gyfan, a bod angen iddo felly sicrhau cydbwysedd o ran mynd i'r afael â phroblemau trefol a gwledig. Roedd mentrau Llywodraeth Cymru, fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, yn chwarae rhan bwysig o ran cyflawni hyn.

5.4 **C** – Gofynnodd **Edward Holdaway – Partneriaeth Tirweddau Cymru,** i'r Gweinidog esbonio sut yr oedd yn disgwyl cysoni, ar y naill law, y ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus i dalu sylw i Ddatblygu Cynaliadwy fel y cynigir yn y Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, ac ar y llaw arall, y ddyletswydd bresennol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i fodloni dibenion y Parciau Cenedlaethol a dyletswydd cyrff cyhoeddus i ystyried dibenion Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, lle cymerir yn ganiataol fod mwy o bwys yn cael ei roi ar yr amgylchedd? **A** – Dywedodd **Jeff Cuthbert** y byddai'n rhoi ateb ysgrifenedig i'r cwestiwn hwn.

5.5 **C** – Mynegodd **John Cook, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,** bryder, fel corff cyhoeddus, y byddai'r holl gydymffurfio deddfwriaethol yn llesteirio eu gallu i gyflawni, ac roedd ganddo bryderon pellach am adrodd, ac am systemau adrodd integredig. **A** – Pwysleisiodd **Jeff Cuthbert** mai'r nod oedd osgoi ychwanegu haen arall o fiwrocratiaeth, a nododd na fyddai angen i lawer o gyrff cyhoeddus wneud fawr mwy na diwygio ychydig bach ar yr hyn y maent eisoes yn ei wneud er mwyn bodloni'r gofynion. Dywedodd fod y Bil yn gyfle i egluro sut ddylai'r systemau adrodd weithredu. Dywedodd hefyd yr ymgynghorir ymhellach â'r grŵp trawsbleidiol er mwyn rhoi cyfle iddynt fynegi barn am sut ddylai pethau weithio yn hynny o beth.

5.6 **C** – Gofynnodd **Llŷr Huws Gruffydd AC (PC)** a allai'r geiriad 'ystyried datblygu cynaliadwy' yn hytrach na 'chyflawni datblygu cynaliadwy' roi gormod o le i gyrff cyhoeddus geisio osgoi cyflawni.
**A** – Dywedodd **Jeff Cuthbert** y byddai rolau perthnasol y Comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn diogelu rhag methiant i gydymffurfio, ac y byddai proses barhaus o graffu ar berfformiad.

5.7 **C** – **Beverley Penney** – **Y Gymdeithas Mannau Agored**: Weinidog, a gredwch chi fod rôl i'r cyhoedd **?** **A** – Esboniodd **Jeff Cuthbert** y byddai 'Sgwrs Genedlaethol' yn cael ei chychwyn cyn y byddai'r Bil yn derfynol, a'i fod yn awyddus i fod mor agored â phosibl, a gwahodd sylwadau gan bobl Cymru. Yr oedd yn awyddus iawn i bobl ifanc gael cyfle i fynegi barn am faterion o bwys iddynt, a'r mathau o swyddi sydd eu hangen ar gyfer creu Cymru gynaliadwy. Byddai'n rhoi cyfle iddynt gael sgyrsiau uniongyrchol am hyn, wyneb yn wyneb.

5.8 **C** – **Karen Anthony** – **Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad**: Weinidog, rydych wedi sôn am feini prawf a chanllawiau, ond yn aml iawn nid yw datblygu cynaliadwy yn rhywbeth pendant. Felly, a ydych yn bwriadu cynnwys hyblygrwydd yn eich model? **A** – Esboniodd **Jeff Cuthbert** y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddweud sut y mae'n bwriadu rhoi datblygu cynaliadwy ar waith ar ddechrau pob tymor. Nid

yw'r meini prawf ar gyfer adrodd wedi'u penderfynu hyd yma, ond byddai mwy i hynny na thicio blychau. Nid oedd dim wedi'i benderfynu ar hyn o bryd, a dylai technoleg, o ystyried pa mor gyflym yr oedd yn datblygu, helpu i ddatblygu proses o adolygu a newid.

5.9 **C** – Gofynnodd **Llŷr Huws Gruffydd AC (PC)** i'r Gweinidog beth fyddai prif ganlyniad y Bil? **A** – Dywedodd **y Gweinidog** mai'r diben oedd sicrhau bod y dyfodol yr ydym yn ei drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf gystal ag y gall fod. Yr oedd yn gosod hyn yng nghyd-destun ei bortffolio cyffredinol i drechu tlodi ac i roi cyfle i bobl o gartrefi sydd heb waith gael swyddi er mwyn cyfrannu at economi gref a gwella lles Cymru.

5.10 **Gadawodd Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, am 19.50.**

**6. Cyflwyniad gan Rhys Jones – y Post Brenhinol**

6.1 Esboniodd Rhys ei fod wedi addasu ei gyflwyniad, ac y byddai'n rhoi sylwadau cryno oherwydd ei bod yn mynd yn hwyr. Credai fod tair agwedd allweddol i gyflawni cymunedau gwledig sy'n gadarn yn gynaliadwy; **mynediad, dewis a chysylltedd.** Ni fydd preifateiddio yn effeithio ar y gwasanaeth cyffredinol mewn ardaloedd gwledig. Bydd y gwasanaeth dosbarthu 'un pris i bobman', chwe diwrnod yr wythnos, yn aros yr un peth.

6.2 Wrth edrych ar **ddewis** mae angen ystyried allgáu digidol, ac felly effaith y gwasanaethau y mae'r cwsmeriaid yn ei gael. Mae cwmnïau'n aml iawn yn annog pobl i fynd ar-lein. Ond nid yw pawb yng Nghymru am gael eu gwasanaethau fel hyn, ac nid pawb sydd â'r mynediad na'r wybodaeth i wneud hyn. Dyna pam fod y Post Brenhinol wedi llofnodi ymgyrch newydd 'Keep Me Posted', www.keepmeposted.com. Mae 15 eisoes wedi llofnodi'r ymgyrch, sy'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn dal i fod â dewis rhwng cyfathrebu ar-lein neu beidio. Mae ymchwil yn dangos ei bod yn well gan 61% o gwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig, ac 80% o bobl dros 65 oed, gael

datganiadau papur. Daw 49% o bobl sydd heb gysylltiad rhyngrwyd o grwpiau economaidd-gymdeithasol isaf ein cymdeithas. Mae'r ymgyrch yn sicrhau y bydd pobl yn parhau i gael gwybodaeth ar bapur, ac na fyddant yn cael eu cosbi am ofyn am gopïau caled.

6.3 Mater arall yw **mynediad**; mae'r post yn dirywio'n strwythurol, ac mae hynny wedi arwain at ad-drefnu'r canolfannau post. Nid yw Swyddfa'r Post ar werth, ond gan fod y gwasanaethau post yn dirywio bu'n rhaid uno canolfannau dosbarthu mewn ardaloedd gwledig, ac mae hynny'n achosi problemau i bobl pan fydd parsel yn cael ei ddosbarthu i swyddfa 'leol' pan fyddant allan. Gallai'r swyddfeydd 'lleol' hyn fod yn bell o'u cartrefi. Mae gan y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post gontract masnachol, a fydd yn parhau hyd yn oed ar ôl y buddsoddiad preifat yn y Post Brenhinol. Mae'r cytundeb busnes hwn rhwng y naill a'r llall yn sylfaen gadarn ar gyfer dyfodol hirdymor a chynaliadwy Swyddfa'r Post, a bydd yn sicrhau bod cwsmeriaid y Post Brenhinol yn dal i fedru cael gwasanaethau post yng nghanghennau Swyddfa'r Post ledled y wlad - rhwydwaith manwerthol mwyaf y DU. Bydd cwsmeriaid mewn ardaloedd gwledig yn medru manteisio ar oriau agor hirach mewn mannau lle mae'r swyddfeydd post wedi eu lleoli mewn siopau lleol - sy'n golygu y cânt well gwasanaeth ar gyfer pethau fel post a pharseli sydd heb eu casglu. Hefyd, bydd y Post Brenhinol yn cynnig cyfeiriadau dosbarthu amgen sydd yn yr un sector cod post.

6.4 Mae **cysylltedd** yn allweddol i fusnes y Post Brenhinol, gan mai parseli sy'n cyfrif am bron hanner y refeniw. Mae'r Post Brenhinol yn ymgynghori ar newid ffurf ei wasanaeth parseli, i weld a oes modd i fwy o eitemau gael eu rhoi yn y categori Parseli Bach, oherwydd bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar Fusnesau Bach a Chanolig. Os caiff y newid hwn ei gyflwyno, bydd dros 80% o'r parseli a ddosberthir gan y Post Brenhinol yn Barseli Bach. Bydd y newid arfaethedig yn golygu y bydd parseli hyd at 350 x 250 x 160mm, sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyfrif yn Barseli Canolig, o hyn ymlaen yn cael eu cyfrif yn Barseli Bach. Byddai hynny'n cwmpasu parseli o faint blwch esgidiau mawr. Mae

Cyflymu Cymru yn chwarae rhan allweddol mewn cyflymu band eang ffibr optig, a bydd yn parhau i wneud hynny; mae'n un i gadw llygad arno.

6.5 Yr her yw sicrhau bod yr holl ddarparwyr gwasanaethau, sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus eu natur - boed hynny yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat - yn parhau i gydweithredu ac arloesi i sicrhau bod economïau gwledig yn cael eu gwasanaethu'n dda yng nghyd-destun economi wledig ffyniannus.

## 7. Cyflwyniad gan Stuart Taylor – Swyddfa'r Post

7.1 Agorodd Stuart ei gyflwyniad drwy ddweud mai'r mater pwysicaf un yw medru codi arian heb orfod talu ffi. Gall cwsmeriaid wneud hynny mewn unrhyw Swyddfa Bost. Mae'r cyfan yn ymwneud â rhoi cyfle da i gwsmeriaid lleol gael eu harian. Hefyd, Swyddfa'r Post yw'r cwmni sy'n darparu'r rhan fwyaf o arian teithio, a hi yw chweched darparwr mwyaf gwasanaethau ffôn a band eang yn y cartref. Ond mae prinder adeiladau yn un o'r rhwystrau allweddol i gyflawni hyn, felly mae angen darparu gwasanaethau gyda phartneriaid, hynny yw mewn neuaddau pentref, siopau trin gwallt ac ati. Os na all cymuned gynnal canghennau brics a morter, bydd Swyddfa'r Post yn ystyried gwasanaethau allgymorth ac yn darparu gwasanaethau Swyddfa'r Post mewn busnesau eraill. Mae Swyddfa'r Post yn ymdrechu i ystyried ffyrdd mwy creadigol o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Cafwyd enghreifftiau o hyn i'r gwrthwyneb hefyd, gan fod heddlu cymunedol wedi bod yn gweithio o safleoedd Swyddfa'r Post. Yr allwedd i gynnal gwasanaethau yw cydweithredu, partneriaeth a chreadigrwydd.

7.2 Y Llywodraeth sydd berchen ar Swyddfa'r Post, a bydd y sefyllfa honno'n parhau. Yr amcan yn y tymor canolig a'r tymor hir yw bod Swyddfa'r Post yn dod yn sefydliad cydfuddiannol. Mae ymgynghoriad wedi'i gynnal i ofyn i'r cyhoedd beth, yn eu barn hwy, yw diben Swyddfa'r Post. Dywedodd Stuart fod angen i unrhyw strategaeth ar gyfer Swyddfa'r Post mewn ardaloedd gwledig adlewyrchu'n briodol y rôl gymharol bwysicach sydd gan Swyddfa'r Post yn y cymunedau hyn.

7.3 Cydnabu Stuart gefnogaeth Llywodraeth Cymru o ran helpu i gynnal Swyddfeydd Post drwy gyfrwng grantiau Cronfa Arallgyfeirio Swyddfeydd Post, a'r rhyddhad ardrethi busnes a roddwyd i sawl cangen. Yn yr wythnosau diwethaf, mae Swyddfa'r Post wedi cyfarfod â swyddogion Jeff Cuthbert i drafod sut y gall mudiad yr Undebau Credyd yng Nghymru a Swyddfa'r Post weithio'n fwy agos gyda'i gilydd.

**8. Sylwadau'r Cadeirydd i gloi**

8.1 Daeth Llŷr Huws Gruffydd AC â'r cyfarfod i ben drwy gadarnhau y bydd yn anfon y papur ynghylch Datgloi Potensial Ucheldiroedd Cymru, a luniwyd ar sail trafodaethau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Gwledig yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf, at Alun Davies, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd. Esboniodd fod rheolau newydd erbyn hyn ar gyfer gweithredu Grwpiau Trawsbleidiol, a bod angen i'r cyfarfod nesaf fod yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol er mwyn pleidleisio ar Gadeirydd. Mae'r rheolau'n datgan bod angen bod yn glir am gyfrifoldeb yr ysgrifenyddiaeth. Dywedodd ei fod yn fodlon iawn â'r gwasanaeth ysgrifenyddiaeth yr oedd YDCW wedi'i ddarparu, a gofynnodd i'r rhai a oedd yn bresennol bleidleisio dros fod Cat Griffith-Williams, YDCW, yn parhau yn y rôl. Cymeradwywyd y penderfyniad hwn gan y rhai a oedd yn bresennol.

.......................................

**6. Y camau nesaf**

6.1 Cyfarfod nesaf y grŵp fydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, a gaiff ei gynnal cyn y Nadolig.

Yn y cyfarfod dilynol, a gynhelir ym mis Ionawr, ar gais swyddfa Carl Sargeant, trafodir rôl a phwysigrwydd cynllunio mewn ardaloedd gwledig, a'r cynnydd o ran bwriadau Llywodraeth Cymru i lunio'r Bil Diwygio Cynllunio.

**Daeth y cyfarfod i ben am 20.15**

**Jeff Cuthbert AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JC/00692/13

Cat Griffith-Williams
Ymgyrch Ddiogelu Cymru Wledig

cat@cprwmail.org.uk

23 Hydref 2013

Annwyl Cat

Diolch am eich e-bost ar 7 Hydref, wedi i mi ddod i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Faterion Gwledig. Roedd ein trafodaethau yn y cyfarfod yn werthfawr i mi yng nghyd-destun Bil Cenedlaethau'r Dyfodol.

O ran cwestiwn Edward Holdaway, rwy'n ymwybodol o'r angen i sicrhau nad oes gwrthdaro rhwng unrhyw ddyletswydd y bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei darparu a phwrpas a dyletswyddau presennol unrhyw un o'r sefydliadau y bydd y Bil yn effeithio arnynt. Byddaf yn sicrhau bod ymdriniaeth ddigonol o'r mater hwn.

Mae'r parciau cenedlaethol yng Nghymru sydd wedi ymuno â Siarter Datblygu Cynaliadwy Cymru eisoes wedi dangos eu hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Mae'n fwriad gennyf y bydd meithrin datblygu cynaliadwy ym mhob un o'r sefydliadau, drwy ddarpariaethau'r Bil, yn eu cynorthwyo i gyflawni eu swyddogaethau craidd mewn modd integredig gan sicrhau ein bod ni oll a'n golygon ar yr hirdymor. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am ddatblygiad y Bil.

Yn gywir

**Jeff Cuthbert AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Y Llinell Saesneg 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*